

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: MA-RE-4111-20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

8 Rhagfyr 2020

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod ymgynghoriad ar God Asesiadau Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar gyfer is-ddeddfwriaeth wedi agor heddiw. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru (<https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>).

Fel y nodir yn y Cod drafft, polisi Gweinidogion Cymru bob amser yw llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol bob amser ar gyfer is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol, heblaw am nifer fach o eithriadau. Mae swyddogion wedi adolygu a, lle bo angen, wedi diwygio'r eithriadau (sy'n disgrifio sefyllfaoedd lle na fyddai angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol) i sicrhau bod y dull gweithredu yn y Cod yn glir ac yn gymesur. Yn ogystal, gwnaed nifer o newidiadau i symleiddio'r Cod ac i ddiweddarau terminoleg a chyfeiriadau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac edrychaf ymlaen at gael barn y ddau Bwyllgor ar y Cod drafft. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 4 Mawrth 2021.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.